# JONES, RICHARD ('Gwyndaf Eryri '; 1785 - 1848), bardd, amaethwr, a saer maen

**Enw:** Richard Jones
**Ffugenw:** Gwyndaf Eryri
**Dyddiad geni:** 1785
**Dyddiad marw:** 1848
**Rhiant:** Margaret Jones
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, amaethwr, a saer maen
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Eisteddfod; Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth
**Awdur:** Isaac Samuel Lloyd

Ganwyd yn Erw Ystyfflau, plwyf Llanwnda, Sir Gaernarfon, yn niwedd 1785, yn fab John Jones a Margaret ei wraig; bedyddiwyd ef yn eglwys Llanwnda 29 Ionawr 1786. Bu farw 21 Mehefin 1848, a chladdwyd ef ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon.

Eisteddfodwr hunan-ddiwylliedig hynod lwyddiannus ydoedd. Enillodd wobr y gadair yn eisteddfod Caernarfon 1821 am awdl ' Cerddoriaeth,' tlws y Gwyneddigion yn eisteddfod Llanwrtyd, 1823, am awdl ar ' Lles Gwybodaeth,' ac amryw brif wobrau eraill. Cyhoeddodd gasgliad o'i farddoniaeth yn 1818 dan y teitl *Peroriaeth Awen*. Yr oedd yn fedrus ar ganu'r chwibanogl, a bu'n aelod blaenllaw o fand y tabwrdd a'r gadbib yn perthyn i Wirfoddolwyr arglwydd Newborough, Glynllifon, a'r milwyr lleol.

## Awdur

**Isaac Samuel Lloyd**, (1875 - 1961)

## Ffynonellau

*Cymru (O.M.E.)*, xxiii, 169

*Y Geninen*, 1883, 55; 1893, 48

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Richard Jones

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734285

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu